# Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4542A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru i swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Amcanion a chwmpas ein gwaith | 4 |
| Canfyddiadau allweddol | 5 |
| Argymhellion | 13 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1—Meini prawf archwilio | 15 |
| Atodiad 2—Dulliau Archwilio | 21 |
| Atodiad 3—Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio | 23 |

# Cyflwyniad

1 Mae GIG Cymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae effaith barhaus pandemig COVID-19 ar y galw am wasanaethau a'r gwasanaethau a ddarperir; y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â staffio, ynni, meddyginiaethau, a chynnal ystad sy'n heneiddio; a mynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd cymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio i gyd yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar draws y GIG.

2 Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud £425 miliwn ychwanegol ar gael i'r GIG ym mis Hydref 2023, diffyg cyfunol o £183 miliwn oedd y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2023–24 i GIG Cymru. Er bod rhai cyrff GIG wedi gallu cyflawni mantoliad ariannol ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y sefyllfa i eraill—yn enwedig rhai Byrddau Iechyd—yn heriol, a nifer yn methu cyflawni'r diffyg cyfanswm rheoli[1] yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl.

3 Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024–25 yr un mor heriol, os nad yn fwy. Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau bod ganddynt ddulliau cadarn ar waith i nodi a chyflawni cyfleoedd gwella costau yn ystod y flwyddyn, ac i ddilyn dull tymor hwy o gyflawni cynaliadwyedd ariannol hefyd sy'n symud oddi wrth ddulliau tymor byr, at rai lle cyflawnir arbedion drwy drawsnewid modelau gwasanaeth a ffyrdd o weithio.

# Amcanion a chwmpas ein gwaith

4 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, amcan ein hadolygiad fu archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd arbed costau cynaliadwy. Nodir y meini prawf manwl yn **Atodiad 1**.

5 Gwnaed y gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

6 Cynhaliwyd ein gwaith rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Mawrth 2024. Crynhoir y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiad 2**. Mae ein gwaith yn gwneud sylwadau ar y dull yn y Bwrdd Iechyd o nodi, cyflawni a goruchwylio cyfleoedd i arbed costau. Mae'n ystyried yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa diwedd blwyddyn 2023–24 ac mae'n pwysleisio pan fo angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024–25 a thu hwnt.

[1] Dyrannodd Llywodraeth Cymru sefyllfaoedd diffyg diwygiedig ar gyfer 2023–24, a elwir yn 'gyfansymiau rheoli', i Fyrddau Iechyd ym mis Tachwedd 2023 ar ôl darparu cyllid ychwanegol i gefnogi eu sefyllfaoedd ariannol.

# Canfyddiadau allweddol

7 Ar y cyfan, canfuom **er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei darged arbedion a sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar gyfer 2023–24, fod angen iddo gychwyn dull sy'n cyfeirio'n fwy at y dyfodol yn awr sy'n canolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau er mwyn cynnal ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor**.

8 Crynhoir y canfyddiadau sy'n cefnogi ein casgliadau cyffredinol isod o dan y penawdau canlynol:

- nodi cyfleoedd i arbed costau;
- cyflawni cynlluniau arbed costau; a
- monitro a goruchwylio cynlluniau arbed.

## Nodi cyfleoedd i arbed costau

9 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd yr hyn a ganlyn:

- dealltwriaeth glir o'r ffactorau sy'n ysgogi ei gostau;
- ystod o ddata a deallusrwydd y mae'n eu defnyddio fel mater o drefn er mwyn helpu i nodi cyfleoedd i arbed costau; a
- dull effeithiol o ddewis cyfleoedd i arbed costau.

10 Canfuom fod **dulliau y Bwrdd Iechyd o nodi arbedion cost tymor byr yn amlwg, ond bod angen iddo gynnal y perfformiad ariannol presennol wrth reoli risgiau ansawdd a pherfformiad a thrawsnewid gwasanaethau er gwerth tymor hwy a sefydlogrwydd ariannol**.

### Deall ysgogiadau costau

11 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n ysgogi ei gostau, a nodir yn glir yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau gweithredu, NICE a chost uchel cyffuriau, cynyddu'r gweithgarwch a gomisiynir, buddsoddiadau lleol, gofal iechyd parhaus, presgripsiynu a phwysau chwyddiant nad ydynt yn gyflogau, goramser a chostau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, a Cronfa Risg Cymru. Hefyd, mae'n cydnabod yr heriau cyd-destunol ehangach sy'n wynebu'r sefydliad gan gynnwys oedi yn y gadwyn gyflenwi, pwysau chwyddiant, a'r addasiadau parhaus i'r gwasanaeth ar ôl y pandemig sy'n berthnasol i'r mwyafrif o'r sefydliadau. Er bod dealltwriaeth dda o ysgogiadau costau ar lefel sefydliadol, mae amrywiad mewn perfformiad ariannol ar lefel weithredol yn awgrymu gwahanol bosibilrwydd o gyflawni arbedion mewn Grwpiau Gofal a Grwpiau Gwasanaethau Clinigol. **(Argymhelliad 1)**

12 Yn ystod 2023–24, darparodd y Bwrdd gyfeiriad a phwyslais clir ar gyflawni sefyllfa ariannol cytbwys, a arweiniodd at gyfanswm rheoli mantoli costau a diffyg ariannol sylfaenol o £19.4 miliwn. Ym mis Mawrth 2024, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd

Gynllun Tymor Canolig Integredig 2024–27 sy'n gytbwys yn ariannol i Lywodraeth Cymru, sydd â tharged arbedion rheolaidd o £26.3 miliwn. Mae'r cynllun yn nodi uchelgais y Bwrdd Iechyd i barhau i 'fyw o fewn ei fodd', ond mae hyn wedi arwain at nifer o benderfyniadau buddsoddi anodd sy'n effeithio ar rai gwasanaethau. Er enghraifft, nid yw wedi gallu buddsoddi mewn Gwasanaethau Strôc, sy'n wynebu heriau perfformiad sylweddol ar hyn o bryd, gan arwain at safle y Bwrdd Iechyd ymhlith y gwaethaf yng Nghymru ar draws nifer o'i fesurau asesu a rhyddhau cleifion ar frys[2]. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi tynnu sylw at gyfleoedd posibl am dargedau arbedion is a lefelau uwch o fuddsoddiad dewisol yn ystod blynyddoedd 2 a 3 o'r broses o gyflawni ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, bydd angen iddo fonitro'n ofalus a rheoli unrhyw risgiau ansawdd a pherfformiad uniongyrchol a allai godi.

13 Yn sgil hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024–27. Fodd bynnag, ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon o'u cymharu â'i Derfyn Adnoddau Refeniw dros gyfnod o dair blynedd 2021–22 i 2023–24 hyd yn oed ac mae'n dal mewn 'Monitro Uwch' ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru Llywodraeth Cymru[3].

14 Mae cyflawni strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd, CTM 2030, yn allweddol i reoli ysgogi costau a chyflawni cynaliadwyedd ariannol. Mae'n gosod pedwar nod strategol lefel uchel[4], a danategir gan dair thema strategaeth allweddol[5], er mwyn trawsnewid ei wasanaethau acíwt a chymunedol. Yn ystod 2023–24, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ar lawer o feysydd allweddol y strategaeth, gan gynnwys datblygu Parc Iechyd Llantrisant[6] ac Ysbyty Cymunedol Maesteg[7]. Fodd bynnag, mae ymdrechion y Bwrdd Iechyd i fantoli'r cyfrifon yn ystod 2023–24 a'r heriau ariannol parhaus y mae'n eu hwynebu yn ystod 2024–25 yn effeithio ar gyflymder y broses o gyflawni amcanion strategol allweddol eraill, megis datblygu'r

[2] Mesurau Asesu a Rhyddhau Cleifion Strôc ar Frys: % y gydymffurfiaeth â mynediad uniongyrchol i uned strôc acíwt o fewn pedair awr, % y cleifion a aseswyd gan ymgynghorydd strôc o fewn 24 awr, % y cleifion a aseswyd gan un o'r canlynol: therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, therapi iaith a lleferydd o fewn 24 awr, a % y cleifion sy'n cael eu rhyddhau gyda thîm amlddisgyblaethol Therapi Cymunedol/cymorth i gleifion a ryddheir yn gynnar.

[3] Gwybodaeth am drefniadau goruchwylio ac uwchgyfeirio GIG Cymru. Yn ogystal â bod mewn Monitro Uwch ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio, mae'r Bwrdd Iechyd mewn Ymyrraeth wedi'i Thargedu ar gyfer perfformiad a chanlyniadau.

[4] Pedwar nod strategol lefel uchel CTM 2030 yw 'creu iechyd', 'gwella gofal', 'ysbrydoli pobl' a 'chynnal ein dyfodol'.

[5] Tair thema strategaeth allweddol CTM 2030 yw 'cefnogi cymunedau gwydn', 'gwasanaethau cymunedol integredig' a'r 'strategaeth gwasanaethau clinigol'.

[6] Nod Rhaglen Parc Iechyd Llantrisant yw cyflawni canolfan diagnosteg a thriniaeth blaengar.

[7] Mae Ysbyty Cymunedol Maesteg yn cael ei ailddatblygu yn ganolfan iechyd, gofal a llesiant.

Cynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt sy’n allweddol i greu modelau gofal eilaidd mwy cynaliadwy. Felly, mae angen i’r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu a nodi map trywydd yn glir ar gyfer y costau a’r arbedion posibl sy’n gysylltiedig â thrawsnewid ei wasanaethau a sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer trawsnewid gwasanaethau yn cefnogi ei gynlluniau i osod ei gyllid ar sail fwy cynaliadwy. **(Argymhelliad 2)**

## Defnyddio data a deallusrwydd i nodi a dethol cyfleoedd i arbed costau

15 Mae trefniadau y Bwrdd Iechyd ar gyfer defnyddio data a deallusrwydd i lywio’r broses o nodi a dethol arbedion costau yn gofyn am gryfhau ymhellach. Mae’n defnyddio ffynonellau data a deallusrwydd megis adolygiadau CHKS[8], VAULT[9], GIRFT[10], ac adolygiadau Gofal Iechyd ar Sail Gwerth lleol. Fodd bynnag, mae lle i’r Bwrdd Iechyd gynyddu ei ddefnydd o ddata a deallusrwydd ar draws amrywiaeth ehangach o feysydd gwasanaeth i fanteisio gymaint â phosibl wrth nodi a dethol cyfleoedd i arbed costau. **(Argymhelliad 3.1)** Hefyd, er bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu ystorfa leol er mwyn helpu i gipio’r wybodaeth hon yn fwy systematig, nid yw’n gwireddu’n llawn y manteision sydd ar gael o ganlyniad i feincnodi ei ffynonellau data ar hyn o bryd, sy’n atal ei allu i nodi a dethol cyfleoedd i arbed costau. **(Argymhelliad 3.2)**

16 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau canfasio, cipio ac asesu syniadau ac awgrymiadau ynghylch cyfleoedd i arbed costau yn fewnol a chan rai rhanddeiliaid allanol ar sail arferion gorau, gan gynnwys enghreifftiau o’r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, efallai y bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn dymuno ystyried nodi syniadau arbed costau gan ddefnyddwyr gwasanaethau, yn rhan o’i ymgysylltiad arfaethedig ynghylch y Cynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt sy’n dod i’r amlwg o bosibl.

17 Hefyd, mae Rhaglen Gwerth ac Effeithlonrwydd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys sawl ‘grŵp galluogi’ canolog i helpu i ysgogi arbedion effeithlonrwydd ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. Mae’r grwpiau ar gyfer 2024–25 wedi eu newid er mwyn sicrhau cysondeb â ffrydiau gwaith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol[11], gan gwmpasu gweithlu, gofal iechyd parhaus, gwariant nad yw’n gyflogau/ar gyfer caffael, rheoli meddyginiaethau, ailgynllunio gwasanaethau, ac amrywiad clinigol.

[8] Darparwr gwasanaethau deallusrwydd gofal iechyd, meincnodi a gwella ansawdd yw Caspe Knowledge HealthCare Systems (CHKS).

[9] Rheolir Value, Allocation, Utilisation and Learning Toolkit (VAULT) gan Weithrediaeth y GIG â’r nod o gefnogi a gwella’r defnydd o adnoddau ar draws GIG Cymru.

[10] Rhaglen a gynlluniwyd â’r nod o wella triniaeth a gofal cleifion drwy adolygu gwasanaethau yn fanwl, meincnodi a chyflwyno sylfaen dystiolaeth sy’n cael ei ysgogi gan ddata i gefnogi newid yw Getting It Right First Time (GIRFT).

[11] Sefydlwyd y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Mae’n cael ei gadeirio gan Weithrediaeth y GIG â’i nod yw canolbwyntio ar themâu penodol, er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd posibl ar draws Cymru. Mae’r ffrydiau gwaith yn cynnwys Gofal Iechyd Parhaus, Rheoli Meddyginiaethau, Gweithlu, Gwariant nad yw’n Gyflogau, ac Amrywiad Clinigol.

Mewn amgylchedd lle y cyfyngir ar gostau, her benodol i'r rhaglen fydd bwrw ymlaen â chynlluniau arbedion y mae angen buddsoddiad ymlaen llaw arnynt er mwyn cyflawni arbedion tymor hwy, ac ar gyfer cynlluniau o'r fath, sicrhau eu bod yn cyflawni'r arbedion a fwriedir megis dychweliadau ar y buddsoddiad hwnnw. **(Argymhelliad 4)**

## Dewis Cyfleoedd Arbed Costau

18 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull rhesymol effeithiol o ddewis cyfleoedd i arbed costau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn dull o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny ar gyfer cipio ac arfarnu cyfleoedd posibl i arbed costau. Roedd Cynllun Ariannol 2023–24 yn seiliedig ar ddull 'cyfanswm rheoli' sy'n ei gwneud yn ofynnol i Grwpiau Gofal a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol gweithredu o fewn uchafswm gorwariant a ganiateir o £23.8 miliwn. Er mwyn bodloni'r cyfanswm rheoli hwn, roedd yn ofynnol iddynt gyflawni targed arbedion o £28.3 miliwn.

19 Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Weithredol wedi chwarae swyddogaeth ganolog wrth bennu targedau arbedion unigol ar gyfer Grwpiau Gofal a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol. Caiff y rhain eu cyfrifo'n bennaf fel canran o'u dyraniad cyllideb rheolaidd ar gyfer y flwyddyn. Cymeradwywyd y targedau gan y Bwrdd a datblygwyd y cynlluniau arbedion gyda'r Grwpiau Gofal er mwyn cyflawni'r targed arbedion cyffredinol. Fodd bynnag, nododd ein gwaith rai pryderon ynghylch cydraddoldeb a thegwch targedau 'ymestyn' a ddyrannwyd i rai meysydd megis Gofal Heb ei Drefnu, Gofal Sylfaenol a Rheoli Meddyginiaethau.

20 Defnyddir templedi Cynllunio Ariannol i asesu cynlluniau arbed a llif syniadau y Grŵp Gofal a'r Gyfarwyddiaeth Gorfforaethol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ymgymryd â gwaith craffu ac yn darparu her ynghylch cyflawnadwyedd y cynlluniau. Mae hefyd yn ofynnol i bob cynllun arbedion gael ei asesu drwy Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd yn ôl yr angen a'i brofi i sicrhau nad ydynt yn cael effaith andwyol ar y nodau strategol. Pwysleisiodd adroddiad Archwilio Mewnol ar drefniadau arbed ym mis Rhagfyr 2023 yr angen am ganllawiau ar Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd ar gyfer cynlluniau arbedion a nodir. Roedd dull diwygiedig newydd yn cael ei weithredu ar adeg ein hadolygiad; fodd bynnag, roedd yn rhy gynnar i asesu effaith y newid.

21 Oherwydd y cynnydd cyfyngedig o ran trawsnewid gwasanaethau, mae cynlluniau arbedion yn dal i fod yn dymor byr ac yn drafodaethol eu natur yn bennaf er mwyn bodloni gofynion arbed yn ystod y flwyddyn. Wrth i Grwpiau Gofal barhau i aeddfedu, mae angen i'r dull ehangach o sicrhau mwy o gynaliadwyedd ariannol gynnwys meysydd megis iechyd y cyhoedd, atal, gofal yn y gymuned, a gweithio rhanbarthol a all ysgogi cyfleoedd arbed tymor hwy. **(Argymhelliad 5)**

# Cyflawni cyfleoedd i arbed costau

22 Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd:

- hanes da o gyflawni cynlluniau arbed a chynlluniau gwella costau;

- cynlluniau clir ar waith i gyflawni'r cyfleoedd arbed costau y mae'n eu nodi;
- y sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni ei gyfleoedd arbed costau y cytunwyd arnynt.

23 Canfuom fod **hanes y Bwrdd Iechyd o gyflawni arbedion yn gwella, gan arwain at gyflawni ei darged arbedion cyffredinol ar gyfer 2023–24. Mae hefyd yn cynyddu ei arbedion rheolaidd yn raddol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol yn ystod 2024–25 yn edrych yn fwyfwy heriol oherwydd effaith risgiau a ragwelir a rhai risgiau annisgwyl sy'n golygu bod angen mwy o gadernid a chysondeb ariannol mewn cynlluniau arbed ac yn ystod y broses o'u cyflawni**.

## Hanes o gyflawni cynlluniau arbed a chynlluniau gwella costau

24 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 1** ac eithrio 2020–21, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu dangos hanes o welliant cynyddol o ran ei arbedion cyffredinol a'r broses o gyflawni arbedion rheolaidd. Yn nodedig, roedd 94% o'r arbedion a gyflawnwyd yn 2023–24 yn rhai rheolaidd. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd Iechyd hefyd wedi dibynnu ar arbedion enillion cyfrifeg gwerth £5.8 miliwn yn 2023–24, nad ydynt yn rheolaidd eu natur ac a adroddwyd i Lywodraeth Cymru ar wahân[12].

**Arddangosyn 1: hanes arbed yn ystod y flwyddyn 2019–2024**

| Blwyddyn | Targed Arbed Cyffredinol (£Miliwn) | Arbedion cyffredinol gwirioneddol a gyflawnwyd (£Miliwn) | Arbedion rheolaidd fel % o'r targed arbedion cyffredinol | Arbedion afreolaidd a gyflawnwyd (£Miliwn) | Arbedion rheolaidd a gyflawnwyd (£Miliwn) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2019–20 | 10.0 | 9.9 | 69% | 3.0 | 6.9 |
| 2020–21 | 20.6 | 5.9 | 16% | 2.6 | 3.3 |
| 2021–22 | 14.5 | 12.3 | 30% | 8.0 | 4.3 |

[12] Cafwyd y ffigur o dabl C4 yn y mis 12, Adroddiad Monitro Dychweliadau Misol Llywodraeth Cymru.

| Blwyddyn | Targed Arbed Cyffredinol (£Miliwn) | Arbedion cyffredinol gwirioneddol a gyflawnwyd (£Miliwn) | Arbedion rheolaidd fel % o'r targed arbedion cyffredinol | Arbedion afreolaidd a gyflawnwyd (£Miliwn) | Arbedion rheolaidd a gyflawnwyd (£Miliwn) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2022–23 | 17.3 | 17.2 | 52% | 8.2 | 9.0 |
| 2023–24 | 27.3 | 27.4 | 94% | 1.7 | 25.7 |

**Ffynhonnell:** Datganiadau Monitro Misol Llywodraeth Cymru ac Adroddiadau Cyllid y Bwrdd Iechyd.

25 Mae gan y Bwrdd Iechyd darged arbedion rheolaidd o £26.3 miliwn ar gyfer 2024–25, ond mae'n wynebu heriau wrth gyflawni'r targed hwn. Noda'r Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllid, Mis 5, 2024–25, i'r Bwrdd ym mis Medi 2024 ddiffyg o £3.9 miliwn hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn, gyda'r prif ysgogiad yn ddiffyg o £6.8 miliwn wrth gyflawni arbedion. Roedd y Bwrdd Iechyd yn dal i adrodd sefyllfa o fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, a bu gwelliant bach erbyn Mis 6. Fodd bynnag, bu digwyddiad sylweddol yn ddiweddar yn ymwneud ag Ysbyty Tywysoges Cymru y Bwrdd Iechyd[13]. Mae hyn yn tarfu ar wasanaethau wrth i'r Bwrdd Iechyd ddechrau cyfnod tyngedfennol y gaeaf ac mae'n bosibl ei fod yn peryglu ei berfformiad refeniw a chyfalaf a gallai effeithio ar yr arbedion a gyflawnir ar gyfer 2024–25.

## Dull o gyflawni cynlluniau arbed

26 Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau digonol ar waith i droi ei ofynion arbed lefel uchel yn gynlluniau arbed y gellir eu defnyddio. Yn gorfforaethol, mae llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni arbedion, a chyhoeddodd Cyfarwyddwyr Gweithredol lythyr atebolrwydd sy'n nodi nifer o ofynion ariannol gan gynnwys targed arbedion. Gellir isddirprwyo cyfrifoldeb am gyllidebau unigol i swyddogion atebol o fewn strwythur gweithredu y Bwrdd Iechyd. Defnyddir cyfarfodydd cyllid misol gyda Grwpiau Gofal a Chyfarwyddiaethau i fonitro'r broses o gyflawni cynlluniau arbedion.

27 Mae perfformiad cynlluniau arbedion unigol yn ystod 2023–24 yn awgrymu bod lle i'r Bwrdd Iechyd sicrhau atebolrwydd cryfach am gyflawni arbedion gweithredol wrth symud ymlaen. Er enghraifft, profodd rai diffygion sylweddol o ran arbedion

[13] Yn ystod mis Hydref 2024, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ddigwyddiad tyngedfennol yn safle ei Ysbyty Tywysoges Cymru gan ddatgelu dirywiad difrifol i do yr adeilad a fydd yn gofyn am raglen amnewid sylweddol.

mewn meysydd gwasanaeth megis Gwasanaethau Cymorth Clinigol, Gofal Sylfaenol a Chymunedol, a Gwasanaethau i Fenywod a Phlant a chyflawnodd gyfran uwch o arbedion mewn meysydd megis Diagnosteg, Therapïau ac Arbenigeddau, Gweithredwyr Corfforaethol, a Chontractio a Chomisiynu. Fodd bynnag, er nad oedd hyn yn effeithio'n berthnasol ar gyflawniad y targed arbedion cyffredinol wrth ei wrthbwyso ag amrywiadau ffafriol ar arbedion heb eu dirprwyo[14], mae'n nodi bod angen mwy o afael gweithredol a rheolaeth ar y broses o gyflawni arbedion er mwyn reoli'r risgiau i'w sefyllfa ariannol sylfaenol. **(Argymhelliad 6)**

## Sgiliau a chapasiti i gyflawni cyfleoedd am arbedion

28 Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei sgiliau a'i gapasiti mewn cysylltiad ag agweddau gweithredol ar gyflawni arbedion. Mae tystiolaeth bod rhagor o gydweithrediad rhwng y Tîm Cyllid a thîm y Prif Swyddog Gweithredu wrth oruchwylio perfformiad ariannol ac mae cynlluniau i gyflwyno hyfforddiant ariannol yn awr bod y Grwpiau Gofal wedi eu sefydlu'n llawn. Mae Partneriaid Busnes Cyllid[15] hefyd yn darparu cymorth mewn Grwpiau Gofal a Grwpiau Gwasanaethau Clinigol er mwyn cynllunio a chyflawni arbedion cost gweithredol. Hefyd, mae'r Swyddfa Rheoli Prosiectau a'r Ganolfan Newid wedi trosglwyddo i dîm y Prif Swyddog Gweithredu yn ddiweddar, sy'n rhoi cyfle i sicrhau bod y capasiti yn y lle iawn i gyflawni amcanion arbedion gweithredol.

29 Fodd bynnag, mae bwlch sgiliau a chapasiti o hyd mewn cysylltiad â'r trawsnewidiad gwasanaethau tymor hwy sy'n ofynnol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Er bod rhai enghreifftiau o fwriad strategol y Bwrdd Iechyd ar gyfer dulliau model gwasanaeth newydd drwy ei fodel Grŵp Gofal, yn ei gamau ffurfiannol o hyd y mae'r gwaith hwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i gysoni adnoddau ar draws timau corfforaethol a gweithredol er mwyn cefnogi newid trawsnewidiol. **(Argymhelliad 7)** Yn ogystal â hynny, amlyga adroddiad Archwilio Mewnol ym mis Rhagfyr 2023 fylchau yn y ddarpariaeth o Ddogfennau Cychwyn Prosiect[16] y bydd angen mynd i'r afael â nhw cyn dechrau datblygu cynlluniau ar gyfer newidiadau ar raddfa fwy.

[14] Cronfeydd a gedwir a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i gefnogi'r broses o gyflawni arbedion Grŵp Gofal (dirprwyedig) yw arbedion heb eu dirprwyo.

[15] Mae'r model partner busnes cyllid yn sicrhau ymgysylltiad ar reoli ariannol ac mae'n darparu cyswllt da rhwng gwasanaethau a chyllid corfforaethol. Cyfrifwyr ariannol yw'r partneriaid busnes ariannol, ac maent yn gyfrifol am gefnogi gwasanaethau, adrodd ariannol a darparu swyddogaeth ymgynghorol.

[16] Mae'r Ddogfen Cychwyn Prosiect yn diffinio prosiect, yn amlinellu ei ddull rheoli, y risgiau, ac yn asesu llwyddiant cyffredinol, gan sicrhau sylfaen gadarn cyn ymrwymo i wariant mawr.

## Monitro a goruchwylio'r broses o gyflawni arbedion costau

30 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- dilyn dull effeithiol o adrodd a monitro'r broses o gyflawni ei gynlluniau arbed costau;
- nodi risgiau i gyflawni cynlluniau arbed a chamau gweithredu i liniaru'r risgiau hynny;
- defnyddio'r hyn a ddysgwyd lle na chyflawnwyd cynlluniau arbed costau.

31 Canfuom fod gan **y sefydliad brosesau clir ar gyfer monitro, olrhain ac adrodd y broses o gyflawni ei gynlluniau arbed costau trafodaethol y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella'r gwaith o reoli risgiau arbedion yn ystod y flwyddyn ac i gyflwyno dull systematig er mwyn dysgu gwersi o'r arbedion a gynllunnir ac a gyflawnir.**

### Adrodd a monitro'r broses o gyflawni cynlluniau arbed

32 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau rhesymol effeithiol ar gyfer monitro ac adrodd yr arbedion a gyflawnir. Ar lefel gorfforaethol, adroddir y perfformiad ariannol, gan gynnwys arbedion, i'r Bwrdd, y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a'r Grŵp Arweinyddiaeth Weithredol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol wedi ei haddasu i bob fforwm ac adroddir trosolwg lefel uchel o'r perfformiad arbedion i'r Bwrdd ac adroddiad manylach i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid sy'n cynnwys dadansoddiad o'r arbedion yn ôl sgôr Coch Oren Gwyrdd a thueddiadau yn yr hyn a gyflawnir ar draws Grwpiau Gofal a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol. Mae'r wybodaeth hon yn ddigonol i oruchwylio cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth iddo gyflawni arbedion ac mae'n galluogi'r Bwrdd i graffu ar gamau gweithredu neu argymell camau gweithredu pan fo cynlluniau arbedion oddi ar y trywydd iawn.

### Nodi risgiau i gyflawni cynlluniau arbed

33 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cofnodi'n ddigonol y risgiau o amgylch ei sefyllfa ariannol ehangach ac mae strwythurau rheoli ariannol priodol ar waith, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, amlinellu risgiau allweddol gan gynnwys y risg o fethu â chynllunio a rheoli adnoddau refeniw o fewn y terfynau a bennir gan Lywodraeth Cymru. Nodir risgiau cyllid hefyd yn yr adroddiadau cyllid arferol i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a'r Bwrdd, gyda'r rheolaethau a'r camau adfer y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau.

34 Fel pob corff GIG yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymhwyso sgôr Coch Oren Gwyrdd i'w gynlluniau arbedion i bennu'r risg o fethu â chyflawni. Yn ystod 2023–24, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â risgiau i arbed yn sydyn, er ei fod wedi defnyddio arbedion heb eu dirprwyo i wrthbwyso diffygion arbedion a ragwelid. Fodd bynnag, mae'r darlun yn ystod 2024–25 yn fwy heriol. Ym Mis 1,

nododd y Bwrdd Iechyd fod 42% o'i gynlluniau arbedion yn 'felyn' a bod 38% ohonynt yn 'wyrdd'. Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i droi cynlluniau 'oren' yn troi'n gynlluniau 'gwyrdd' (hynny yw tebygolrwydd cryf o gyflawni) o fewn tri mis. Fodd bynnag, ym Mis 4, er bod y Bwrdd Iechyd wedi nodi bod 13% ohonynt yn dal yn 'oren', roedd gostyngiad hefyd yn ei gynlluniau arbedion 'gwyrdd' i 17%, sy'n nodi dirywiad yn yr arbedion a ragwelir o £19.1 miliwn i £7.2 miliwn. Yn unol â chanllawiau Llywodraethu Cymru, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn nodi cynlluniau arbedion 'coch' yn ei adroddiadau cyllid i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Yn hytrach, rhoddir sicrwydd ar y camau a gymerir i adfer cynlluniau nad ydynt yn cyflawni'n ddigonol.

## Defnyddio'r hyn a ddysgwyd

35 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y bydd ei Swyddfa Rheoli Prosiectau a'i Ganolfan Newid **(gweler paragraff 28)** yn darparu mwy o gyfleoedd i ddysgu ar lefel weithredol. Fodd bynnag, ar adeg ein hadolygiad, roedd y newidiadau strwythurol i dîm y Prif Swyddog Gweithredu yn gymharol newydd ac roedd yn rhy gynnar i werthuso effaith y trefniadau diwygiedig. Gwnaethom nodi bod rhai newidiadau arloesol ar y gweill i'r gwasanaeth, er mwyn gwella'r broses o gyflawni arbedion, er enghraifft, defnyddio gweithlu cyfleusterau i gefnogi amseroedd prydau bwyd cleifion, a thrwy hynny leihau nifer y Gweithwyr Cymorth Nyrsio a Gofal Iechyd sydd eu hangen ar y gofrestr. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ceisio rheoli costau tymor hwy drwy leihau ei ddefnydd o fentrau a threfniadau rhestr aros ar gyfer y staff sydd ar alwad oherwydd bod y dull tri safle presennol yn gostus. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio nodi'r gwersi allweddol o'r profiadau hyn a defnyddio'r hyn a ddysgwyd er mwyn datblygu gallu i gyflawni arbedion yn y Grwpiau Gofal a'r Grwpiau Cymorth Clinigol. **(Argymhelliad 9)**

# Argymhellion

Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 2**. Crynhoir ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 2: Argymhellion**

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu'r potensial a'r risgiau gweithredol o ran cyflawni arbedion ym mhob Grŵp Gofal a Grŵp Gwasanaeth Clinigol yn barhaus. **(Paragraff 11)** |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei gynlluniau trawsnewid gwasanaethau yn nodi'n eglur sut y byddant yn helpu'r sefydliad i gyflawni cynaliadwyedd ariannol o ran yr arbedion a gynhyrchir a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni nhw. **(Paragraff 14)** |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau i'r modd y mae'n defnyddio data a deallusrwydd i lywio ei drefniadau nodi a dewis arbedion drwy:<br>A3.1 Ehangu ei ddefnydd o ddata a deallusrwydd ar draws amrywiaeth ehangach o wasanaethau. **(Paragraffau 15)**<br>A3.2 Datblygu gwaith yn gyflym ar ei ystorfa data lleol er mwyn hwyluso'r broses o gipio data meincnodi yn systematig. **(Paragraff 15)** |
| A4 | Pan fo cyfleoedd 'buddsoddi i arbed' yn cael eu nodi a'u datblygu drwy'r Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd, dylai'r Bwrdd Iechyd gadarnhau ei fod yn gallu darparu digon o gyllid ymlaen llaw i'w cefnogi nhw a bod yn gallu dangos dychweliadau clir o fuddsoddi **(Paragraff 17)** |
| A5 | Mae angen datblygu cynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau (pum mlynedd a mwy) wrth i'r Grwpiau Gofal barhau i aeddfedu a chanolbwyntio fwyfwy ar iechyd y cyhoedd, atal, gofal yn y gymuned a gweithio rhanbarthol. **(Paragraff 21)** |
| A6 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau atebolrwydd gweithredol cryfach am gyflawni arbedion a rheoli risgiau i'w safle sylfaenol yn fwy effeithiol. **(Paragraff 27)** |
| A7 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod sgiliau, capasiti a gallu digonol ar draws ei dimau corfforaethol a gweithredol i gyflawni ei dasg o drawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy yn effeithiol. **(Paragraff 29)** |
| A8 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'r gwersi allweddol o'i ddull o nodi a chyflawni arbedion yn ystod 2023–24, a chymhwyso'r hyn a ddysgir i'w ddull gweithredu yn y dyfodol. **(Paragraff 35)** |

# Atodiad 1

## Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r meini prawf archwilio manwl ar gyfer yr adolygiad hwn.

**Arddangosyn 3: nodi cyfleoedd i arbed costau**

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| **Deall ysgogiadau costau** | • Mae mantolen agoriadol y sefydliad yn wir ac yn deg.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer nodi a dadansoddi'r ystod lawn o ffactorau cyflog a ffactorau nad ydynt yn gyflogau sy'n ysgogi ei gostau yn y tymor byr a chanolig ac yn yr hirdymor.<br>• Mae gan y sefydliad ddealltwriaeth dda o raddfa yr arbedion cost sydd eu hangen i gyflawni cynaliadwyedd ariannol yn y tymor byr a chanolig, ac yn yr hirdymor, ac mae wedi pennu targedau realistig a chyraeddadwy yn unol â hynny.<br>• Mae'r Bwrdd yn cyfrannu'n briodol at y gwaith o oruchwylio a chraffu ar ddadansoddiad ariannol a thargedau arbedion cost y sefydliad, gan eu herio nhw. |
| **Defnyddio data a deallusrwydd i nodi cyfleoedd i arbed costau** | • Mae'r sefydliad yn cael ac yn defnyddio gwybodaeth meincnodi o amrywiaeth o ffynonellau fel mater o drefn (ee Dangosyddion Perfformiad Allweddol Rheoli Meddyginiaethau, CHKS, Meincnodi y GIG).<br>• Mae'r sefydliad yn cael ac yn defnyddio data a gwybodaeth am effeithlonrwydd o amrywiaeth o ffynonellau fel mater o drefn (ee Fframwaith Effeithlonrwydd GIG Cymru/VAULT, adolygiadau GIRFT, adolygiadau/cyfleoedd Gofal Iechyd ar Sail Gwerth lleol). |

| | |
|---|---|
| | • Mae gan y sefydliad brosesau clir ar waith i ganfasio, cipio ac asesu syniadau ac awgrymiadau ynghylch cyfleoedd i arbed costau gan staff, defnyddwyr gwasanaethau, a rhanddeiliaid eraill yn rheolaidd.<br>• Mae gan y sefydliad brosesau clir ar waith ar gyfer ymateb i gyfleoedd i arbed costau a nodir yn ganolog gan Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru. |
| **Dewis cyfleoedd i arbed costau** | • Mae gan y sefydliad broses clir ac ailadroddol ar waith i arfarnu'r holl gyfleoedd posibl i arbed costau o ran y graddau y maent yn gyraeddadwy, a'u heffaith ar gyflawni nodau strategol y sefydliad, amcanion llesiant, iechyd y boblogaeth, ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a'r gallu i gyflawni targedau perfformiad ac i fodloni manylebau gwasanaeth yn y tymor byr a chanolig, ac yn yr hirdymor.<br>• Mae gan y sefydliad broses clir ac ailadroddol ar waith ar gyfer craffu ar gyfleoedd i arbed costau, ac ar gyfer cytuno arnynt a'u cymeradwyo, sydd hefyd yn cynnwys y Bwrdd a'i bwyllgor(au) perthnasol.<br>• Mae'r cyfleoedd i arbed costau y sefydliad y cytunwyd arnynt:<br>– yn realistig, yn gyraeddadwy, ac yn canolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau i iechyd y boblogaeth a wasanaethir;<br>– yn cwmpasu ehangder swyddogaethau clinigol, gweinyddol a thechnegol y sefydliad;<br>– yn cydbwyso arbedion nad ydynt yn rheolaidd â chyfleoedd am arbedion sy'n fwy cynaliadwy;<br>– yn corffori arbedion cynhyrchiant, ond yn cydnabod na fyddant yn arwain at ostyngiad mewn termau ariannol;<br>– yn canolbwyntio ar drawsnewidiad tymor canolig i dymor hwy, yn ogystal â chyfleoedd tymor byr a chynyddrannol; ac<br>– wedi eu graddio a'u targedu'n briodol ar draws pob rhan o'r sefydliad (yn hytrach na chanran safonol a gymhwysir ar draws pob rhan). |

## Cyflawni cyfleoedd i arbed costau

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| **Dull o gyflawni cynlluniau arbed** | • Mae gan y sefydliad gynlluniau ar waith i gyflawni cyfleoedd i arbed costau sy'n nodi'n glir:<br>– yr arbedion ariannol a fydd a gyflawnir a sut y byddant yn cael eu mesur;<br>– yr effaith a ragwelir ar strategaeth, ansawdd a/neu berfformiad;<br>– y camau lliniaru, y rheolaethau a'r risgiau allweddol;<br>– unrhyw gyd-ddibyniaeth â chynlluniau eraill i arbed costau;<br>– unrhyw ddibyniaeth ar strategaethau a ffrydiau gwaith sefydliadol eraill;<br>– cerrig milltir allweddol a gyflawnir;<br>– pa uwch-swyddog sy'n gyfrifol ac yn atebol am gyflawni.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli cynlluniau i arbed costau trawsbynciol.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i gyfathrebu ei gynlluniau arbed costau i staff, defnyddwyr gwasanaethau, a rhanddeiliaid eraill. |

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| **Sgiliau a chapasiti i gyflawni cyfleoedd am arbedion** | • Dogfennir a deellir yn glir swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â chyflawni cynlluniau arbed costau ar bob lefel o'r sefydliad.<br>• Mae'r sefydliad wedi asesu'r sgiliau/gallu a'r capasiti sydd eu hangen i gyflawni ei gynlluniau arbed costau ar lefel gorfforaethol a gweithredol ac mae wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a bylchau (gan gynnwys y defnydd priodol o gapasiti/arbenigedd allanol).<br>• Mae gan y sefydliad adnoddau a strwythurau corfforaethol priodol ar waith (megis Swyddfa Rheoli Rhaglen) i wneud yr hyn a ganlyn:<br>– cadw'r hyn a gyflawnir ar y trywydd iawn;<br>– darparu her pan fo angen;<br>– cefnogi staff corfforaethol a gweithredol i reoli risgiau i gyflawni; a<br>– darparu ymateb ystwyth ac amserol pan nad yw'r hyn a berfformir/cyflawnir yn ddigonol. |
| **Hanes o gyflawni cynlluniau arbed a chynlluniau gwella costau** | • Cyflawnwyd cynlluniau arbed costau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i raddau helaeth.<br>• Mae tystiolaeth bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei ddefnyddio pan nad yw cynlluniau arbed costau wedi eu cyflawni yn flaenorol. |

## Monitro a goruchwylio'r broses o gyflawni arbedion costau

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| **Monitro'r broses o gyflawni cynlluniau arbed** | • Mae gan y sefydliad drefniadau clir ar waith ar gyfer monitro'r hyn a gyflawnir, sy'n adlewyrchu'r amserlenni a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau unigol a'r targed arbedion cost cyffredinol.<br>• Mae'r sefydliad wedi dewis Dangosyddion Perfformiad Allweddol priodol ac wedi rhoi rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod ansawdd y data sylfaenol yn ddibynadwy ar gyfer monitro ac adrodd effeithiol.<br>• Mae dull y sefydliad o fonitro ac olrhain y broses o gyflawni ei gynllun arbed costau yn cyd-fynd yn briodol â'i drefniadau rheoli ariannol ehangach (ee Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynlluniau Cadw a Dirprwyo, dyraniadau cyllideb.)<br>• Mae'r sefydliad yn llunio adroddiadau addasedig sy'n diwallu gwahanol anghenion defnyddwyr yn y gadwyn lywodraethu.<br>• Mae'r sefydliad yn sicrhau bod yr arbedion cost a gyflawnir yn cael eu hadlewyrchu'n gywir mewn adroddiadau cyllid a gyflwynir i'r Bwrdd a/neu ei bwyllgor(au) perthnasol. |
| **Nodi risgiau i gyflawni cynlluniau arbed** | • Mae'r sefydliad wedi nodi a dogfennu'r risgiau allweddol i gyflawni yn y cofrestrau risg priodol (gweithredol, corfforaethol, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd).<br>• Mae'r sefydliad wrthi'n rheoli/lliniaru'r risgiau ar y lefel briodol.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i nodi ac uwchgyfeirio cynlluniau arbed costau sydd oddi ar y trywydd iawn a/neu'n cael effaith andwyol/annisgwyl ar strategaeth, ansawdd a/neu berfformiad.<br>• Mae'r sefydliad yn cymryd camau priodol mewn modd amserol pan fo cynlluniau arbed costau oddi ar y trywydd iawn a/neu'n cael effaith andwyol/annisgwyl ar strategaeth, ansawdd a/neu berfformiad. |

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
| --- | --- |
| **Defnyddio'r hyn a ddysgwyd** | • Mae'r sefydliad yn ceisio sicrwydd ar ei drefniadau drwy ddefnyddio archwiliad mewnol, neu adolygydd annibynnol a gwrthrychol tebyg.<br>• Mae'r sefydliad yn gwerthuso'n briodol ei ddull o gyflawni arbedion cost.<br>• Mae'r sefydliad yn defnyddio'n weithredol ei werthusiad(au) a'i sicrwydd ei hun a ddarperir gan archwiliad mewnol i nodi gwersi a ddysgir ac i newid/gwella ei drefniadau.<br>• Caiff gwersi a ddysgir a newidiadau/gwelliannau eu hadrodd i'r Bwrdd a/neu ei bwyllgor(au) perthnasol er mwyn galluogi ymateb ystwyth yn ystod y flwyddyn.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i drosglwyddo'n llawn a/neu i integreiddio newidiadau sy'n deillio o'i gynlluniau arbed costau i'w weithrediadau a'i weithgareddau busnes arferol. |

# Atodiad 2

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 4** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Hunanasesiad | Adolygwyd holiadur hunanasesu a gwblhawyd a dogfennau ategol. |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• agendâu, papurau a chofnodion y bwrdd a'r Pwyllgorau;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol;<br>• dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol mewn cysylltiad â chyllid sefydliadol; ac<br>• adroddiadau a baratowyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r canlynol:<br>• Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>• Prif Swyddog Gweithredu<br>• Cyfarwyddwr Cyfleusterau Is-adrannol<br>• Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol y Gwasanaethau Acíwt<br>• Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Gweithrediadau Gofal Heb ei Drefnu<br>• Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gofal Sylfaenol a Chymunedol<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Ystadau Cyllid a Chaffael<br>• Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd |
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Bwrdd Cyhoeddus<br>• Y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 5:** Ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i'n hargymhellion archwilio.

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu'r potensial a'r risgiau gweithredol o ran cyflawni arbedion ym mhob Grŵp Gofal a Grŵp Gwasanaeth Clinigol yn barhaus. | Bydd proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025–28 yn defnyddio asesiad o botensial cyflawni arbedion gweithredol i lywio targedau arbedion ar gyfer pob Grŵp Gofal. | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Cyllid |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei gynlluniau trawsnewid gwasanaethau yn nodi'n eglur sut y byddant yn helpu'r sefydliad i gyflawni cynaliadwyedd ariannol o ran yr arbedion a gynhyrchir a'r amserlen ar gyfer eu cyflawni nhw. | Mae proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025–28 yn cynnwys bwriad i sicrhau bod cam cyntaf o ymgysylltiad y cyhoedd ACSP o leiaf yn cael ei wneud, er mwyn cyrraedd cyfres o ddewisiadau i'w hystyried ymhellach gan y cyhoedd. Ochr yn ochr â hynny, mae amrywiaeth o newidiadau i'r gwasanaethau brys sy'n cael eu gwerthuso o ran perfformiad, ansawdd a chyfleoedd am gynaliadwyedd ariannol. Bydd hyn | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | | yn cyfrannu at ddatblygu cynllun tair blynedd, gan gynnwys asesiad realistig o'r effaith ar arbedion cost. | | |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud gwelliannau i'r modd y mae'n defnyddio data a deallusrwydd i lywio ei drefniadau nodi a dewis arbedion drwy:<br>A3.1 Ehangu ei ddefnydd o ddata a deallusrwydd ar draws amrywiaeth ehangach o wasanaethau.<br>A3.2 Datblygu gwaith yn gyflym ar ei ystorfa data lleol er mwyn hwyluso'r broses o gipio data meincnodi yn systematig. | Cynllunio i wneud gwelliannau yn y modd yr ydym yn defnyddio data a deallusrwydd i danategu'r broses o nodi a dewis arbedion i'w corffori yn ein proses o gynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig. | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Digidol/Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid |
| A4 | Pan fo cyfleoedd 'buddsoddi i arbed' yn cael eu nodi a'u datblygu drwy'r Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd, dylai'r Bwrdd | Bydd cyfleoedd Buddsoddi i Arbed yn parhau i gael eu cefnogi gan achosion clir sy'n nodi'r dychweliadau arfaethedig ar fuddsoddiad yn ystod | Mawrth 2025 | Y Cyfarwyddwr Cyllid |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | Iechyd gadarnhau ei fod yn gallu darparu digon o gyllid ymlaen llaw i'w cefnogi nhw a bod yn gallu dangos dychweliadau clir o fuddsoddi. | y flwyddyn ac yn rheolaidd. Bydd unrhyw gynigion lle nad oes dychweliadau digonol yn ystod y flwyddyn i gynnal niwtraliaeth cost yn cael eu rheoli fel cynnig buddsoddi drwy ein prosesau Cynllun Tymor Canolig Integredig sefydledig. | | |
| A5 | Mae angen datblygu cynlluniau ar gyfer trawsnewid gwasanaethau (pum mlynedd a mwy) wrth i'r Grwpiau Gofal barhau i aeddfedu a chanolbwyntio fwyfwy ar iechyd y cyhoedd, atal, gofal yn y gymuned a gweithio rhanbarthol. | Bydd cynlluniau i drawsnewid gwasanaethau yn parhau i danategu datblygiad ein Cynllun Tymor Canolig Integredig a'n strategaeth. Adlewyrchir hyn yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025–28. | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid/Prif Swyddog Gweithredu |
| A6 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau atebolrwydd gweithredol cryfach am gyflawni arbedion a rheoli risgiau i'w safle sylfaenol yn fwy effeithiol. | Mae adolygiadau cyllid misol diwygiedig ar waith bellach a ymgymerir ac a arweinir gan y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r adolygiadau'n canolbwyntio ar gynlluniau yn ystod y flwyddyn a rheolaidd ac fe'u tanategir â chytundebau atebolrwydd. Uwchgyfeirir materion at y Prif Weithredwr a'r Bwrdd drwy adrodd ar Gyllid. | Cwblhawyd | Cyfarwyddwr Cyllid/Prif Swyddog Gweithredu |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu a gynllunnir mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch bryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A7 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod sgiliau, capasiti a gallu digonol ar draws ei dimau corfforaethol a gweithredol i gyflawni ei dasg o drawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy yn effeithiol. | Byddwn yn ystyried digonolrwydd sgiliau, capasiti a gallu i ddatblygu ein Cynllun Tymor Canolig Integredig a'n strategaeth yn y dyfodol. Cynllunio i adlewyrchu hyn yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025–28. | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid/Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Pobl |
| A8 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'r gwersi allweddol o'i ddull o nodi a chyflawni arbedion yn ystod 2023–24, a chymhwyso'r hyn a ddysgir i'w ddull gweithredu yn y dyfodol. | Byddwn yn ystyried y gwersi allweddol wrth ddatblygu ein Cynllun Tymor Canolig Integredig a'n strategaeth yn y dyfodol. Adlewyrchu gwersi a ddysgir yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025–28. | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Strategaeth a Thrawsnewid/Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Cyllid |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.